

Fersiwn	CY3
Dyddiad adolygu diwethaf	Mai 2020

**Y Berthynas Waith**  
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

**gweithio'nwell**  
**workwell**

**Employee Relations**  
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

## **Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Diswyddiad Gwirfoddol**

<b>RHEOLI'R DDOGFEN</b>	
<b>ENW'R POLISI</b>	<b>Cynllun Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Diswyddiad Gwirfoddol</b>
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 444503
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Ebrill 2008
Swyddog Diwygio	Grŵp Diwygio Polisi
Dyddiad Diwygio	Medi 2016
Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	Medi 2016
<b>HANES DIWYGIO</b>	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mehefin 2007	Richard Evans
Ebrill 2008	Richard Evans
Ebrill 2010	Richard Evans
Ebrill 2011	Richard Evans
Tachwedd 2013	Richard Evans
Medi 2016	Grŵp Diwygio Polisi
Mai 2020	Grŵp Safonau Cymraeg AD
<b>CYMERADWYO'R DDOGFEN</b>	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Garfan Rheoli Adnoddau Dynol	Medi 2016
Uwch Garfan Arwain	Mehefin 2015
Cabinet	Mehefin 2015
Cyngor	Dd/B

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.**

## **Cynnwys**

1. Datganiad Polisi
2. Cynllun 1 – Ymddeoliad cynnar gwirfoddol a diswyddiad (dros 55 oed ac yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)
3. Cynllun 2 – Diswyddiad Gwirfoddol (dros 55 oed a ddim yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu o dan 55 oed, heb ystyried a yw'r gweithiwr yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)

## 1. **DATGANIAD POLISI**

Mae'r datganiad wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) 2006 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd) sy'n gofyn i bob cyflogwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Iunio a chofnodi ei bolisi ar gyfer ymddeol yn gynnar a/neu ddiswyddo.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu o dro i dro ac os yw'n cael ei benderfynu bod angen diwygio'r polisi (ar ôl cynnal adolygiad), bydd datganiad polisi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi.

Wrth Iunio ac adolygu'r polisi, bydd sylw dyledus yn cael ei roi i ba raddau y gall arfer pwerau disgrisiwn (yn unol â'r polisi), oni bai ei fod yn cael ei gyfyngu'n briodol, arwain at golli hyder difrifol yn y gwasanaeth cyhoeddus ac i ba raddau mae'r polisi yn ymarferol, fforddiadwy ac yn rhesymol gan ystyried y costau mae modd eu rhagweld; yn rhoi ystyriaeth i anghenion darparu gwasanaethau ac yn cydnabod yr angen am gysondeb, tegwch a chyfiawnder mewn cysylltiadau gweithwyr.

Bydd y cynlluniau yn berthnasol i'r grwpiau canlynol o staff:

- Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Weithredwyr
- Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Swyddogion
- Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Cydgyngor Trafod Telerau ar gyfer Gweithwyr Crefft a Gweithwyr Cysylltiedig
- Staff sy'n cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau Soulbury (ac eithrio'r staff hynny yn y Cynllun Pensiwn Athrawon)
- Cydgyngor Trafod Telerau Gweithwyr Ieuencid a Gweithwyr Cymunedol (ac eithrio'r staff sydd yn y Cynllun Pensiwn Athrawon)

### **Cyfrifo Cyflog Wythnos**

Bydd cyfrifo unrhyw iawndal yn seiliedig ar gyflog wythnos gwirioneddol gweithiwr ond yn cael ei gapio ar uchafswm sy'n seiliedig ar y cyflog wythnosol statudol (£538 yr wythnos ar hyn o bryd - 6 Ebrill 2020). Mae'r cyflog wythnos (at ddiben cyfrifo'r taliad diswyddo statudol) yn cael ei gyfrifo yn unol ag adran 226 o'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth, fel a ganlyn:

- Os yw rhybudd yn cael ei roi, y dyddiad cyfrifo yw'r dyddiad y byddai'r hysbysiad statudol wedi cael ei roi i derfynu'r contract ar y dyddiad perthnasol. Yn y sefyllfa yma, mae'r dyddiad cyfrifo yn cael ei bennu trwy gyfrif hyd y rhybudd statudol yn ôl o'r dyddiad perthnasol.
- Os nad oes rhybudd wedi'i roi, yna bydd y dyddiad cyfrifo yr un fath â'r dyddiad perthnasol h.y. y dyddiad y mae'r gyflogaeth yn dod i ben.

## **Ceisiadau i'r Panel Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol**

Rhaid i weithiwr sy'n dymuno ymddeol o dan y cynlluniau, gyflwyno cais gan ddefnyddio'r ffurflenni priodol, sydd ar gael gan Adnoddau Dynol. Mae'r ffurflenni yma ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd ceisiadau o dan y cynlluniau yma'n cael eu cyflwyno i Banel Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol y Cyngor sy'n cynnwys Aelodau etholedig o'r Cyngor. Bydd pob cais i ymddeol yn gynnwys yn cael ei ystyried mewn modd diduedd.

## **Cyfyngiadau**

Yn rhan o gais gwirfoddol gweithiwr, o gofio'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i ddiogelu cyflogaeth ar gyfer y rhai a allai, fel arall, gael eu diswyddo, bydd e'n cydnabod y bydd e'n cael ei atal rhag cael ei gyflogi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn unol â'r cynllun fel a ganlyn:

Bydd staff sy'n manteisio ar eu buddion pensiwn trwy ymddeol yn gynnwys, yn ogystal â thaliadau diswyddo, yn cael eu hatal rhag cael eu cyflogi gan y Cyngor. (Mae hyn yn cynnwys gwaith dros dro, achlysurol neu drwy asiantaeth).

BYDD STAFF SY'N MANTEISIO AR EU BUDDION PENSIWN CYDADFEROL YN UNIG DRWY YMDDEOL YN GYNNAR, YN CAEL EU HATAL RHAG CAEL EU CYFLOGI GAN Y CYNGOR (GAN GYNNWYS GWAITH DROS DRO, ACHLYSUROL NEU DRWY ASIANTAETH) AM GYFNOD O DDWY FLYNEDD, SY'N CYCHWYN AR EU DYDDIAD GORFFEN.

## **Cyfnodau rhybudd o'r bwriad i roi'r gorau i'r swydd**

Fel arfer, bydd y gweithiwr sy'n ymddeol neu ddiswyddo, yn gweithio cyfnod o rybudd yn unol â'i hawliau contract neu statudol, p'un bynnag yw'r mwyaf, er y gall yr hawl i weithio'r rhybudd gael ei hepgor gan y cyflogwr dan sylw.

## **Gweithredu'r Datganiad Polisi**

Bydd y cynlluniau diwygiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016 ac yn parhau mewn grym nes bod y Cyngor yn penderfynu y dylid eu dirwyn i ben neu eu diwygio.

Does dim yn y datganiad polisi yma, neu'i gynlluniau, sy'n gallu diystyru darpariaethau statudol Deddfau Pensiwn Llywodraeth Leol, neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall/unrhyw reoliadau perthnasol eraill.

## CYNLLUNIAU

**Bydd y cynlluniau yma'n berthnasol i'r gweithwyr hynny sy'n cael eu dewis ar gyfer diswyddo ac sydd ag o leiaf dwy flynedd o gyflogaeth gymwys.**

### **2. CYNLLUN 1 – YMDDEOLIAD CYNAR GWIRFODDOL A DISWYDDIAD (DROS 55 OED AC YN AELOD O'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL) - AC EITHRIO STAFF Y CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Bydd y cynllun yma'n berthnasol i weithwyr pensiynadwy sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013, ond sydd heb gyrraedd oedran ymddeol arferol y mae eu swyddi yn dod yn ddiangen, er budd effeithlonrwydd y gwasanaeth.

Bydd buddion yn cael eu cynnig i'r gweithwyr hynny sy'n gymwys yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) (Amrywiol) 2006. Bydd gweithiwr sy'n ymddeol o dan y cynllun yma â'r hawl i dderbyn:

- Iwfans pensiwn ymddeol a chyfandaliad blynyddol a'r ddau yn seiliedig ar wasanaeth cyfrifadwy gwirioneddol hyd at 31 Mawrth 2008 ar 1/80 a 3/80 yn y drefn honno, o gyflog pensiynadwy terfynol gweithiwr, ynghyd â
- phensiwn ymddeol blynyddol yn seiliedig ar wasanaeth cyfrifadwy gwirioneddol o 1 Ebrill 2008 hyd at Fawrth 2014 ar 1/60 o gyflog pensiynadwy terfynol gweithiwr, ynghyd â
- phensiwn ymddeol blynyddol yn seiliedig ar wasanaeth cyfrifadwy gwirioneddol o 1 Ebrill 2014 ar 1/49 o gyflog gyrfa gweithiwr ar gyfartaledd, ynghyd â
- taliad diswyddo statudol sydd wedi'i gyfrifo yn unol â Rheoliad 5(2) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) (Amrywiol) 2006. Bydd y taliad yn seiliedig ar gyflog wythnos gwirioneddol y gweithiwr (ond yn cael ei gapio ar uchafswm sy'n seiliedig ar y cyflog wythnosol statudol) hyd at uchafswm o 30 wythnos o gyflog yn ôl oedran a gwasanaeth.
- O dan Reoliad 6, bydd y taliad statudol yma wedyn yn cael ei gynyddu drwy gyfrwng taliad cydadferol. Bydd y taliad cydadferol ar ffurf ffactor lluosu o 1.666 gwaith y taliad diswyddo statudol hyd at uchafswm 50 wythnos o gyflog.

**DS - Fydd dim 'blynyddoedd ychwanegol' o wasanaeth pensiynadwy yn cael eu rhoi gan y Cyngor.**

**3. CYNLLUN 2 - DISWYDDIAD GWIRFODDOL (DROS 55 OED A DDIM YN AELOD O'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL NEU O DAN 55 OED, HEB YSTYRIED A YW'R GWEITHIWR YN AELOD O'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL) - AC EITHRIO STAFF Y CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Bydd buddion yn cael eu cynnig i'r gweithwyr hynny sy'n gymwys yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) (Amrywiol) 2006. Bydd gweithiwr sy'n ymddeol o dan y cynllun yma â'r hawl i dderbyn:

- taliad diswyddo statudol sydd wedi'i gyfrifo yn unol â Rheoliad 5(2) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) (Amrywiol) 2006. Bydd y taliad yn seiliedig ar gyflog wythnos gwirioneddol y gweithiwr (ond yn cael ei gapio ar uchafswm sy'n seiliedig ar y cyflog wythnosol statudol) hyd at uchafswm o 30 wythnos o gyflog yn ôl oedran a gwasanaeth.
- O dan Reoliad 6, bydd y taliad statudol yma wedyn yn cael ei gynyddu drwy gyfrwng taliad cydadferol. Bydd y taliad cydadferol ar ffurf ffactor llusosi o 1.666 gwaith y taliad diswyddo statudol hyd at uchafswm o gyflog 50 wythnos.